**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/HL/1245/13

David Melding
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion
Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

7 Ionawr 2014

Annwyl David,

**Bil Addysg (Cymru) – Rhan 2; Cyngor y Gweithlu Addysg**

Yn sgil y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, ac ar ôl ystyried yr adroddiadau Cyfnod 1 a baratowyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwy'n ysgrifennu atoch cyn ymddangos gerbron y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ymateb i'r adroddiadau hynny.

Fel y dywedais yn fy Natganiad diweddar ar ganlyniadau PISA eleni, mae'n bwysig ein bod nawr yn parhau â'n hymgyrch i wella safonau addysgol a chyrhaeddiad yn ein hysgolion. Drwy greu sail ar gyfer adeiladu system addysg o'r radd flaenaf, lle mae ymarferwyr yn cydweithio i wella safonau'r addysgu ac ansawdd y dysgu, bydd y Bil hwn yn ein helpu i gyrraedd ein nod mewn llawer o ffyrdd pwysig ac arwyddocaol. Rwy'n ddiolchgar i'ch pwyllgor am y gwaith craffu trylwyr y mae wedi ei gyflawni a hefyd am ei adroddiad ar y casgliadau.

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynwyd, rwyf eisoes wedi datgan fy mwriad i:

- gyflwyno gwelliant i'r Bil yng Nghyfnod 2 er mwyn sicrhau bod ei gwmpas yn ddigon eang i gynnwys y sector annibynnol o fewn y gofyniad i gofrestru ar ddyddiad yn y dyfodol, os bydd tystiolaeth gref y dylwn wneud hynny;
- sicrhau bod y rheoliadau a wneir o dan Adran 5  yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; a
- hysbysu'r Pwyllgor pan fyddwn yn ymgynghori ar y gorchymyn drafft a'r rheoliadau cysylltiedig mewn perthynas â Gweithwyr Ieuenctid, gan y byddem yn croesawu cyfraniad y Pwyllgorau i'r ymgynghoriad hwnnw.

Roedd eich adroddiad Cyfnod 1 yn mynegi pryder mai natur fframwaith sydd i Ran 2, ond rhaid nodi bod rheswm da ac angenrheidiol am y modd y mae'r Bil wedi ei strwythuro, fel rwyf yn ei egluro isod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Huw.Lewis@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Fel y pwysleisiwyd yn y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, mae yna wahaniaethau mawr yn y trefniadau presennol ar gyfer gwahanol swyddogaethau o fewn y gweithlu addysg. Mae'r dystiolaeth wedi tynnu sylw at y gwahanol gamau datblygu; hyd yn hyn, nid yw'n ofynnol i staff cymorth gael eu rheoleiddio o gwbl, er gwaetha'r ffaith bod systemau ar gyfer athrawon wedi bod ar waith ers amser. Er enghraifft, mae athrawon eisoes yn gorfod cydymffurfio â gofynion cofrestru cynhwysfawr, gofynion ynghylch cymwysterau a phroses werthuso. Mae strwythur y Bil yn ystyried y gwahaniaethau hyn sy'n bodoli yn y gofynion presennol.

Hefyd mae'r Bil yn darparu ar gyfer ychwanegu categorïau eraill o weithwyr yn y dyfodol. Rwyf wedi gorfod cadw'r amrywiaethau hyn mewn cof wrth ddatblygu'r Rhan hon o'r Bil ac wrth ystyried cydbwysedd rhwng yr hyn a roddir ar wyneb y Bil a'r hyn y mae'n fwy priodol ymdrin ag ef mewn is-ddeddfwriaeth. Os ydym am ymateb yn effeithiol i anghenion y gweithlu ehangach a'u gwahanol gamau datblygu, mae'r hyblygrwydd a'r gallu i ymateb yn gyflym, fel y gellir eu sicrhau drwy is-ddeddfwriaeth, yn rhywbeth sydd nid yn unig yn ddymunol ond yn hytrach yn hollol hanfodol i'n llwyddiant.

Lle bo hynny'n bosibl, rwyf wedi disgrifio'n fanwl yr hyn y gellir ei gynnwys mewn rheoliadau a'r hyn sydd ar wyneb y Bil, a chredaf fod hynny'n dangos yn glir ein bwriad o ran polisi. Mae'n golygu hefyd y byddwn hefyd yn gallu gwneud rheoliadau a fydd yn ein helpu i wireddu ein huchelgais o godi safonau

Wrth bennu'r darpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth, hoffwn roi sicrwydd i'ch Pwyllgor fy mod wedi cadw at ganllawiau'r Cwnsler Cyffredinol o ran penderfynu a ddylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ynteu'r weithdrefn negyddol.

Wedi ystyried ymhellach ac yn fanwl, ac yng ngoleuni'r adroddiadau Cyfnod 1 a baratowyd gennych chi a chan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, byddaf yn cyflwyno gwelliannau pellach lle bo hynny'n gywir ac yn briodol. Rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 yn y meysydd canlynol:

**Adran 7** – Gan ymateb i bryderon y Pwyllgor ynghylch annibyniaeth y Cyngor, cyflwynir gwelliant sy'n golygu na fydd yn ofynnol i'r Cyngor gael caniatâd Gweinidogion Cymru cyn rhoi cyngor ar y materion perthnasol a nodir yn adran 7(2). Yn lle cael caniatâd, bydd y gwelliant rwy'n ei gynnig i'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor hysbysu Gweinidogion Cymru am y cyngor y mae wedi ei roi.

**Adran 8 -** Byddaf yn rhoi sylw i'r pryderon a godwyd ynghylch yr hyn a welir fel diffyg cyfeirio at ddatblygiad proffesiynol parhaus. Cyflwynir gwelliant i'r adran hon a fydd yn cyfeirio at ddatblygiad gyrfa.

**Adran 12 -** Bydd arfer pŵer o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 53.

**Atodlen 1, paragraff 3** Rwy'n cynnig gwelliant i bennu ar wyneb y Bil bod 14 o aelodau yn gwasanaethu ar y Cyngor i ddechrau.

**Atodlen 1, paragraffau 4 (2) a 9 (2)** Cyflwynir gwelliannau i'r paragraffau hyn i nodi y gall y rheoliadau gyfeirio at god ymarfer sy'n ymwneud â'r weithdrefn penodiadau cyhoeddus. Mae hyn mewn ymateb i bryderon rhai Aelodau sy'n teimlo y gallai fod yna ddiffyg annibyniaeth, ac felly mae'n rhoi sicrwydd y bydd yr aelodau'n cael eu penodi mewn modd teg ac yn ôl eu teilyngdod. Fel y dywedwyd yn y Pwyllgor, wrth wneud penodiadau mae Gweinidogion Cymru bob amser wedi ymrwymo i gadw at y Cod

Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus neu unrhyw god perthnasol sydd mewn grym ar y pryd.

Rydym yn gwybod o ganlyniadau PISA bod angen inni sicrhau bod ein dysgwyr yn cael cyfle i elwa ar weithlu sydd â sgiliau rhagorol ac sy’n cael ei arwain yn effeithiol. Yr ymarferwyr yw’r rhai sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda’r dysgwyr, a’r ymarferwyr sy’n gyfrifol am droi mentrau a pholisïau gwella cenedlaethol yn realiti. Rydym felly’n dibynnu’n fawr ar weithlu ein hysgolion i sicrhau’r gwelliant y mae ei angen.

Rwy’n ffyddiog y bydd y gwelliannau arfaethedig yn creu’r cydbwysedd iawn ac y bydd y darpariaethau yn Rhan 2 y Bil yn creu sail briodol ar gyfer gwireddu’r agenda hon ar gyfer gwella.

Rwy’n gobeithio y byddwch yn cytuno bod fy ymateb i’ch adroddiad yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rwy’n ysgrifennu llythyr tebyg at Ann Jones AC yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Best Regards

Huw

**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills